



## **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion o gyfarfod Pwyllgor Trwyddedu a gafodd ei gynnal ddydd Mawrth, 3 Rhagfyr 2019 am 5.00pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany CF40 2XX.

### **Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd D Williams	Y Cynghorydd S. Bradwick
Y Cynghorydd S Powderhill	Y Cynghorydd E Webster
Y Cynghorydd T Williams	Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd A Cox	Y Cynghorydd L Jones

### **Swyddogion oedd yn bresennol:-**

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd  
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol  
Ms R Hope, Rheolwr y Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd  
Mr A Morgan, Swyddog Gorfodi – Materion Trwyddedu  
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol  
Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Materion Trwyddedu

#### **38 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

#### **39 Deddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

#### **40 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref, 2019 yn rhai cywir.

#### **41 Cyhoeddiad gan y Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau mai hwn fyddai cyfarfod olaf Alan Morgan gan ei fod i fod i ymddeol o'r Awdurdod Lleol ym mis Rhagfyr.

Ar ran y Pwyllgor diolchodd y Cadeirydd i Alan am ei wasanaeth a dymunodd ymddeoliad hir a hapus iddo.

**42 Ystyried Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 30.09.19 - 17.11.19**

Yn ei hadroddiad, rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – fanylion i'r Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a roddwyd yn ystod y cyfnod 30 Medi 2019 i 17 Tachwedd 2019.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth mai ychydig iawn o drwyddedau a chofrestriadau tân gwyllt a ffrwydron a gyhoeddwyd am y cyfnod. Adroddwyd hefyd fod Rhybudd o Gynnig wedi'i gyflwyno i'r Cyngor llawn a'i gymeradwyo yn dilyn pryderon ynglŷn â thân gwyllt. Nododd y byddai adroddiad dilynol gan adran Diogelwch y Cyhoedd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** cydnabod y diweddariad.

**43 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**44 Ystyried y ceisiadau canlynol ar gyfer Trwyddedu a/neu Gofrestru:**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd fanylion y cais canlynol am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr SJM o Llynrhedynog ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth ger ei fron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ganiatáu'r cais yn amodol ar y telerau ac amodau safonol arferol; gan roi rhybudd.

(**Nodwch:** Cyn i'r Ymgeisydd adael y cyfarfod, pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen rhoi sylw dyledus i'r rhybudd a oedd wedi ei roi gan y Pwyllgor oherwydd gallai methu â gwneud hynny effeithio ar benderfynu ar geisiadau yn y dyfodol.)

**45 Crynodeb Gorfodi (Gan gynnwys Data Apeliadau/Erlyniadau) ar gyfer y cyfnod: 05.10.19 - 22.11.19**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 5 Hydref 2019 i 22 Tachwedd 2019.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a sawl cwestiwn, cadarnhawyd y byddai gwybodaeth bellach yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor priodol nesaf mewn perthynas â'r materion a ganlyn:-

- Canlyniadau profion gwybodaeth y Cyngor a gynhaliwyd;
- Ymateb busnesau i ymgyrch sticeri tacsis twyllodrus; a
- Data apêl RhCT / Cymru Gyfan.

**PENDERFYNWYD:**

1. Cydnabod y diweddariad; a
2. Derbyn yr wybodaeth uchod yn unol â chais y Pwyllgor.

**46 Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 30.09.19 - 17.11.19**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd adroddiad i'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 30 Medi 2019 i 17 Tachwedd 2019.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.30pm**

**Y CYNGHORYDD A FOX  
CADEIRYDD.**